Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Penisarwaun
# Penisarwaun
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 3BW

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2013**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi ei lleoli yng nghanol pentref Penisarwaen mewn ardal wledig nid nepell o droed yr Wyddfa. Daw'r disgyblion o'r pentref a'r ardal wledig gyfagos sy'n cael ei disgrifio gan yr ysgol fel un heb fod yn ffyniannus nac o dan unrhyw anfanteision economaidd. Mae'r nifer o ddisgyblion sydd â hawl i ginio am ddim yn sylweddol is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.

Mae 44 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys chwech o blant meithrin rhan amser ac maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth o oedrannau cymysg. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Daw 82% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae gan 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r canran cenedlaethol. Mae datganiad statudol ar nifer fach o ddisgyblion.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn ystod tymor yr Haf 2007.

Ma'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ionawr 2012.Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Penisarwaun yn 2012-2013 yw £4,774. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgol gynradd yng Ngwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Penisarwun yn safle 27 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn rhoi o'u gorau ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda;
- pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- profiadau dysgu yn bodloni anghenion disgyblion;
- athrawon yn llwyddo i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu'n effeithiol;
- gallu disgyblion blwyddyn 6 i gynllunio a chyflwyno rhai gwersi yn rhagorol; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yr ysgol yn dda oherwydd:

- arweiniad clir a phwrpasol y pennaeth;
- cyfraniad arwyddocaol y llywodraethwyr at ddatblygiad yr ysgol;
- effaith gref hunan-arfarnu ar ddatblygiad yr ysgol;
- gallu'r pennaeth i ddefnyddio data perfformiad i gynllunio gwelliannau;
- effaith cadarnhaol partneriaethau ar safonau a dysgu disgyblion; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Sicrhau nad oes gan ddisgyblion fynediad i'r maes parcio yn ystod oriau ysgol

A2 Codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd eang.

A3 Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar ddatblygiad yr ysgol.

A4 Darparu gwell cyfleoedd i athrawon arsylwi a rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn cyd-weithio'n ddiwyd ar dasgau, yn canolbwyntio'n dda ac yn effro i holi a gofyn cwestiynau. Wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau, er enghraifft adeiladu model o rafft sy'n gallu arnofio wrth gludo llwyth ysgafn, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau meddwl. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn ei gymhwysoyn llwyddianus mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod, mae pob disgybl yn ysgrifennu mewn modd dealladwyac yn defnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Erbyn blwyddyn 5, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at nifer o ddibenion ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau datrys problemau yn effeithiol wrth ymwneud â thasgau ymchwiliol, megis dylunio ac adeiladu pont.

Mae cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol, ychydig yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu. Mae'r perfformiad mewn datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. Mae perfformiad yr ysgol yn y tri maes yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Serch hynny, mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill â chyfran tebyg o ddisgyblion a hawl i ginio am ddim mae perfformiad yr ysgol yn y 50% isaf ar gyfer pob maes dysgu ag eithrio datblygiad personol, cyndeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ble mae yn y 25% uchaf.

Ac eithrio datblygiad mathemategol, roedd y gyfradd a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) yn y ddau faes arall yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu.

Gan mai 2012 yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer cyhoeddi data perfformiad ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ni ellir adrodd ar dueddiadau hanesyddol mewn perfformiad.

Mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf, mae canlyniadau cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg a Saesneg wedi bod gan mwyaf ymhlith y 50% uchaf o ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Bu canlyniadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf ymhlith y 50% isaf dros y cyfnod.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn 2012 yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael bwydydd iachus ac i ddatblygu ffitrwydd.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, mae pob un yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn hyderus iawn wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu. Maent yn mynd i'r afael â thasgau penagored yn fedrus, er enghraifft, wrth benderfynu os ydynt o blaid neu yn erbyn hela llwynogod. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i wella eu dysgu.

Mae gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn barod iawn i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn y dosbarth. Enghraifft dda o hyn yw eu parodrwydd i arwain grwpiau trafod. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn chwarae rôl bwysig ym mywyd cymdeithasol yr ysgol. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd iddynt ddylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm ac ar fywyd a gwaith yr ysgol yn gyffredinol.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson dda ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn uwch na chyfraddau Cymru gyfan. Maent ac mae'r ysgol yn y 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Dafarn** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu symbylus sydd yn cyfarfod ag anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i selio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac ar roi rôl weithredol i ddisgyblion yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Mae'r ystod buddiol o brofiadau

ychwanegol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol a'r cyfleoedd i gystadlu a pherfformio mewn eisteddfodau, yn cyfoethogi profiadau y disgyblion yn sylweddol.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau allweddol, ac yn arbennig medrau llythrennedd, wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r rhaglenni ymyrraeth ar gyfer ddisgyblion â medrau llythrennedd is, yn galluogi'r disgyblion hyn i gaffael y medrau angenrheidiol sydd eu hangen ac i wneud cynnydd da yn eu dysgu.

Trwy astudio arwyr hanesyddol fel Owain Glyndŵr, ac ymweld ag Amgueddfa Llechi cyfagos, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy gyda disgyblion yn chwarae rhan weithredol yn y trefniadau ailgylchu. Mae'r 'Tîm Ynni' yn gweithio'n gydwybodol i geisio lleihau'r defnydd o ynni. Er bod yr ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o ymgyrchoedd dyngarol, prin iawn yw'r cysylltiadau gyda gwledydd tramor. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth y disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd eang yn gyfyng.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon ym mhob dosbarth yn defnyddio amrediad effeithiol o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddarperir yn heriol ac yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau ymchwiliol. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, llwydda'r athrawon a'r ymarferwyr i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu'n effeithiol. Mae'r arfer o annog disgyblion yn gyson i werthuso'u dysgu, i fynegi barn a chynnig gwelliannau i'w gwaith yn arwain at welliannau sylweddol mewn safonau a chynnydd.

Mae'r arfer yn nghyfnod allweddol 2 o roi'r cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno ambell i wers fathemateg yn nwylo disgyblion blwyddyn 6 yn nodwedd ragorol o'r addysgu.

Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer asesu dysgu a hefyd asesu ar gyfer dysgu. Trwy farcio pwrpasol, yn arbennig ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, caiff disgyblion arweiniad defnyddiol ynghylch safon eu gwaith a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i'w wella. Mae'r arfer o bennu targedau gwelliant i bob unigolyn, ac o gynnwys y disgyblion eu hunain yn y drafodaeth, yn hyrwyddo deilliannau dysgu da. Caiff cynnydd pob disgybl ei gofnodi'n rheolaidd a defnyddir gwybodaeth asesu yn fedrus ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn rhoi gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn gynnes a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i

fwyta'n iach a, thrwy weithgareddau corfforol megis rhedeg o gwmpas trac yr ysgol, a chlybiau ar ôl ysgol, mae amrywiaeth eang o gyfleoedd i'r disgyblion gynyddu eu lefelau ffitrwydd ac iechyd.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r cyfleoedd rheoliad gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu sgiliau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar a thrwy asesiadau rheolaidd, mae athrawon yn cofnodi eu cynnydd ac ynpennu targedau gwelliant addas a chyraeddadwy ar eu cyfer. Mae gan ddisgyblion a'u rhieni rôl weithredol yn y trefniadau ac mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais cryf ar ddangos parch at bawb a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae teimlad o foddhad a hapusrwydd yn amlwg o fewn cymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymroi'n weithgar i godi arian at elusennau fel Achub y Plant, ac mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb.

Mae digon o le yn yr ystafelloedd ac mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd dda yn y dosbarthiadau gan gynnwys offer cyfrifiadurol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol iawn gan ddisgyblion ac athrawon i gefnoogi dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol o gael defnyddio adnoddau ac ystafelloedd y Ganolfan Gymuned.

Mae buarth a chae helaeth gyda digon o le ynddynt i ddisgyblion chwarae. Mae ardal y tu allan y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n ddychmygys i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous. Fodd bynnag, nid oes giat wrth ochr yr adeilad i rwystro disgyblion yn ystod amser egwyl rhag crwydro i'r maes parcio o flaen yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Dafarn |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad clir a phwrpasol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad yr ysgol. Mae wedi llwyddo i rannu ei weledigaethgyda'r staff a'r

llywodraethwyr. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau sy'n cryfhau y ddarpariaeth a gwella safonau.

Mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dreiddgar o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn gyfforddus iawn yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol. Mae'r 'grwpiau safonau' a sefydlwyd yn ddiweddar wedi dyfnhau gwybodaeth llywodraethwyr ac wedi'u galluogi i gyfrannu'n arwyddocaol i ddatblygiad yr ysgol. Mae hwn yn arfer ragorol sydd wedi galluogi'r corff llywodraethu i gyfrannu'n fwy effeithiol at y broses o lunio adroddiad hunan-arfarnu a chreu cynllun datblygu ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn llawn.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu ynghyd â mabwysiadu'r strategaethau llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan-arfarnu wedi eu sefydlu'n gadarn ac effeithiol yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae wedi ei seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol megis arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, adroddiadau pwnc ac ar farn disgyblion a rhieni. Mae gallu'r pennaeth i ddadansoddi data perfformiad ar gyfer adnabod cryfderau ac anghenion gwella yn gryfder. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu o ansawdd da ac yn rhoi darlun cywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n blaenoriaethu yr anghenion gwella yn effeithiol gyda ffocws priodol ar godi safonau disgyblion.

Mae ymwneud diweddar yr ysgol â rhwydwaith dysgu proffesiynol wedi gwella dealltwriaeth athrawon o strategaethau addysgu gwyddoniaethl ac wedi arwain at wella medrau ymchwilio disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd tebyg i'r staff ddatblygu a rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad arolygu diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau da sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ac ar arferion dysgu ac addysgu. Mae cysylltiadau gyda'r gymuned yn llwyddiannus iawn ac yn cynnig profiadau gwerthfawr.

Mae'r berthynas gyda rhieni a chyfeillion yn un gref, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau adnoddau ac offer defnyddiol er budd y disgyblion. Mae'r ysgol yn ymroi i ganfod barn rhieni ar amrywiol agweddau o'i gwaith. Mae hyn wedi

cryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae'r cysylltiadau cryf gyda'r mudiad cyn ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n effeithiol i'r dosbarth meithrin. Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus hefyd gyda'r ysgolion uwchradd lleol ac mae'r trefniadau pontio effeithiol yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae'r gweithgareddau safoni a chymedroli llwyddiannus rhwng yr ysgol Uwchradd a'i chlwstwr ysgolion yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant wedi'i gysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Caiff staff ac adnoddau ariannol eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n dda. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr athrawon ond nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer y staff ategol. Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac sy'n gymorth i godi safonau drwy'r ysgol.

Fe reolir ystod dda o adnoddau dysgu yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Caiff hyfforddiant staff ei gynllunio'n fanwl mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac ansawdd y profiadau.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol, ychydig yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu. Mae'r perfformiad mewn datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. Mae perfformiad yr ysgol yn y tri maes yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Serch hynny, mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill â chyfran tebyg o ddisgyblion a hawl i ginio am ddim mae perfformiad yr ysgol yn y 50% isaf ar gyfer pob maes dysgu ag eithrio datblygiad personol, cyndeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ble mae yn y 25% uchaf.

Ac eithrio datblygiad mathemategol, roedd y gyfradd a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) yn y ddau faes arall yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu.

Gan mai 2012 yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer cyhoeddi data perfformiad ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ni ellir adrodd ar dueddiadau hanesyddol mewn perfformiad.

Mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf, mae canlyniadau cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg a Saesneg wedi bod gan mwyaf ymhlith y 50% uchaf o ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Bu canlyniadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf ymhlith y 50% isaf dros y cyfnod.

Nid oes unrhyw batrwm o wahaniaethau rhwng y rhywiau o un flwyddyn i'r llall. Dengys data mewnol yr ysgol ynghyd â'r perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, bod llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd arwyddocaol mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn 2012 yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Roedd pob un o'r 24 o holiaduron disgyblion a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol ac yn llawer uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywed pob disgybl:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, y cânt help gan athrawon ac oedolion i ddysgu a gwneud cynnydd a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- bod gwaith cartref yn eu helpu i wneud cynnydd; a'u bod
- yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion:

- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith a'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio ; a bod
- llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt aros yn iach.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd 15 o rieni'r holiadur cyn-arolygiad, sef tua hanner o deuluoedd yr ysgol. Roedd llawer o'r holiaduron yn mynegi bodlonrwydd ynghylch yr ysgol ac yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywed pob rhiant:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol, bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth da i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod addysgu yn dda ac athrawon yn disgwyl i blant weithio'n galed;
- bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac yn cael ei helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau a'i fod yn ddiogel tra yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol neu godi problem; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed ychydig o rieni na chânt wybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wiliam Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Mainwaring | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llyr Rees | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

## Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

## Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.